Newid Cadarnhaol mewn Gofal Cymdeithasol
Positive Change in Social Care

Llywodraeth Cymru
Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth
Welsh Government
National Office for Care and Support

# Newid cadarnhaol ym maes gofal cymdeithasol

## Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth

## **Adroddiad Blynyddol** | 2024-2025

# Cynnwys


**03** **Rhagair y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol**

**04** **Trosolwg o'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth**

**07** **Gofal Cymdeithasol yng Nghymru: Y sefyllfa sydd ohoni**

**08** **Creu system gofal cymdeithasol gynaliadwy i Gymru**


**10** **Cydweithio a phartneriaeth**

**15** **Cyflawniadau ac effaith y Swyddfa Genedlaethol hyd yn hyn**

**26** **Edrych i'r dyfodol: blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod**


OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51434 ISBN Digidol 978-1-83715-881-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol



Fel Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol cyntaf y Swyddfa Genedlaethol, sy'n sôn am y cyfnod ers ei lansio ym mis Ebrill 2024 hyd at fis Mawrth 2025.

Bu'r flwyddyn hon yn gyfnod o dwf a thrawsnewid sylweddol i'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth. Mae ein tîm wedi gweithio'n ddiwyd mewn partneriaeth â'r 22 o awdurdodau lleol, darparwyr gofal cymdeithasol, y gweithlu gofal cymdeithasol a rhanddeiliaid allweddol eraill i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol ac i gyrraedd safonau cenedlaethol er mwyn gwella cysondeb ledled Cymru.

Drwy gydol y flwyddyn hon, rydym wedi dathlu nifer o lwyddiannau. Mae ein hymdrechion ar y cyd wedi arwain at gynnydd sylweddol wrth ddatblygu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru, sy'n anelu at ddarparu gofal teg o ansawdd uchel i bawb. Rydym wedi llunio'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth, gan gymryd camau tuag at roi dull cyson ac effeithiol ar waith wrth gomisiynu gwasanaethau ledled y wlad.

Mae ein hymrwymiad i gydweithio â chi yn parhau'n gadarn. Rydym wedi meithrin cydberthnasau cadarn â rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae ein Grŵp Cynghori Strategol wedi rhoi arweiniad a chymorth amhrisiadwy.

Gan edrych i'r dyfodol, rydym yn parhau'n ymrwymedig i'n cenhadaeth, sef sicrhau cysondeb a gwelliannau cenedlaethol wrth ddarparu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn cynnwys ymgysylltu â'r sector a'r cyhoedd er mwyn codi proffil a llais gofal cymdeithasol, ysgogi'r arferion gorau yn y sector drwy bennu safonau cenedlaethol a hyrwyddo arloesedd, a symud yn agosach at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru.

Hoffwn ddiolch o galon i bob un o'n partneriaid, ein rhanddeiliaid ac aelodau ein tîm am eu gwaith caled a'u hymroddiad. Gyda'n gilydd, rydym yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ym maes gofal cymdeithasol.

*Albert Heaney CBE*

**Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru**

# Trosolwg o'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth

## Pwy ydym a beth rydym yn ei wneud

Tîm sy'n rhan o Lywodraeth Cymru yw'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth, sy'n gweithio i helpu Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru a Gweinidogion Llywodraeth Cymru i ysgogi newid cadarnhaol ym maes gofal cymdeithasol i bawb yng Nghymru. Mae'r Swyddfa Genedlaethol yn gweithio i gyflawni canlyniadau gwell a thecach, ac i lywio cysondeb o ran ymarfer gan sicrhau bod profiad defnyddwyr gwasanaethau, yn blant ac yn oedolion, a'u gofalwyr, wrth ddefnyddio gwasanaethau yng Nghymru yn parhau'n greiddiol i'w hanghenion gofal a chymorth.

Caiff y Swyddfa Genedlaethol ei harwain gan Brif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, y mae ganddo brofiad helaeth ym maes gwasanaethau cymdeithasol ac a fu'n Llywydd ADSS Cymru yn y gorffennol. Pennaeth y Swyddfa Genedlaethol, sydd â chefndir ym maes gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymorth, sy'n arwain y tîm o safbwynt strategol a gweithredol. Mae'r tîm yn cynnwys sawl cangen sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau a phrosiectau o fewn rhaglen waith y Swyddfa Genedlaethol:

- **Dansoddi ac Arloesi**
- **Comisiynu a Goruchwylio'r Farchnad**
- **Talu am Ofal a Chyllid yn y Dyfodol**
- **Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Rhanddeiliaid**
- **Rhaglen y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol**




Fel y nodwyd yn ein Mandad ar gyfer 2024-25, rydym wedi anelu at gyflawni tair blaenoriaeth graidd ers dod yn weithredol ym mis Ebrill 2024, gan gydnabod mai hon yw ein blwyddyn gyntaf a'i bod yn flwyddyn drosiannol. Pennwyd y swyddogaethau craidd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn dilyn ymatebion i'r ymgynghoriad Ailgydbwyso yn 2023. **www.llyw.cymru/y-rhaglen-ailgydbwyso-gofal-chymorth**

## Y tri maes hyn oedd ein ffocws craidd yn 2024-25:

1. Cefnogi Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru
2. Datblygu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru, ei roi ar waith a pharhau i'w ddarparu
3. Rhoi'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru ar waith a pharhau i'w reoli







Wrth i'r Swyddfa Genedlaethol drawsnewid i fodel cwbl weithredol yn ystod ein hail flwyddyn a thu hwnt, bydd y swyddogaethau yn parhau i aeddfedu ac ehangu. Mae ein blaenoriaethau ar gyfer 2025-26, y cyfeirir atynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf.

## Ein gwerthoedd

Gyda'n gilydd, rydym yn gweithio tuag at y datganiad gwerthoedd craidd a nodwyd yn ein Mandad ar gyfer 2024-25:

> **Rhoi arweiniad canolog i'r sector drwy fod yn sbardun i wella'r ffordd y darperir gofal cymdeithasol yng Nghymru yn genedlaethol er mwyn sicrhau trefniadau cydweithio, canlyniadau gwell a thecach a gwella mynediad a phrofiad defnyddwyr gwasanaethau.**

Fel swyddfa â chysylltiadau allanol, rydym wedi meithrin cydberthnasau gwaith cadarn â rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector gofal cymdeithasol a'r sector iechyd.

Yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'r Swyddfa Genedlaethol yn anelu at sicrhau bod gan bobl reolaeth dros eu cymorth, gan wneud penderfyniadau am eu gofal fel partneriaid cydradd. Mae'r Swyddfa Genedlaethol yn ymgorffori'r egwyddorion hyn drwy sicrhau bod ein rhaglen waith yn anelu at gyflawni canlyniadau teg, gwella mynediad at wasanaethau a gwella profiad defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r gwerthoedd arweiniol hyn hefyd yn rhan o rôl Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, gan ddangos ein hymrwymiad parhaus i lywio gwelliannau wrth ddarparu gofal cymdeithasol ledled Cymru.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Yn ein blwyddyn gyntaf drosiannol, mae'r Swyddfa Genedlaethol wedi sicrhau ei bod yn gweithredu'n unol â'r saith nod llesiant a amlinellir yn y Ddeddf. Wrth i'r Swyddfa Genedlaethol barhau i ddatblygu ac aeddfedu, byddwn yn parhau i fyfyrio ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac i ystyried y nodau wrth i'n gwaith fynd rhagddo. Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu'r gwaith a wnaed gennym hyd yn hyn a sut mae'n berthnasol i'r Ddeddf.

Mae'r gweithgareddau penodol a gyflawnwyd yn ystod blwyddyn gyntaf y Swyddfa Genedlaethol sy'n dangos ysbryd y Ddeddf yn cynnwys ein gwaith gyda Mwy Na Geiriau i helpu'r Gymraeg i ffynnu ym maes gofal cymdeithasol, rhoi camau gweithredu ar waith o dan Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, gweithio'n agos â chydweithwyr ym mhob rhan o'r sector gofal cymdeithasol ac iechyd i gydnabod y rhan hanfodol y mae ymdrechion i integreiddio gofal yn ei chwarae wrth gyflawni'r weledigaeth a nodwyd yn Cymru Iachach a blaenoriaeth gyflawni Iechyd Da Prif Weinidog Cymru. Wrth ddatblygu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru, rhoddwyd ystyriaeth agos i sut y gall gwasanaeth o'r fath wireddu'r saith nod llesiant.

# Gofal Cymdeithasol yng Nghymru: Y sefyllfa sydd ohoni

**Mae cyfrifoldeb statudol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymorth.**

**Mae hyn yn digwydd mewn amrywiaeth o ffyrdd, gyda rhai gwasanaethau yn cael eu darparu'n uniongyrchol ond gyda llawer o wasanaethau hefyd yn cael eu comisiynu gan yr awdurdodau lleol neu'n cael eu darparu mewn partneriaeth â sefydliadau preifat a sefydliadau'r trydydd sector.**

**Mae cyfran o bobl hefyd sy'n trefnu eu gofal a'u cymorth eu hunain drwy drefniadau preifat, y tu allan i'r gwasanaethau cymdeithasol, yn ogystal â'r rhai hynny sy'n hunan-ariannu eu gofal a'u cymorth. Mae'r uchod yn cynnig crynodeb syml iawn o ofal cymdeithasol yng Nghymru, ond mae'n nodi'r rôl bwysig y mae sawl partner allweddol yn ei chwarae wrth helpu pobl i gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt, a chymhlethdod y system.**

Mae gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd ran allweddol i'w chwarae wrth gynllunio gwasanaethau gofal a chymorth. Mae'r Byrddau hyn wedi bod yn weithredol ers 2016 a chawsant eu sefydlu o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Canllawiau Statudol Rhan 9 a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf hon yn darparu'r fframwaith i ddod â sefydliadau ynghyd i weithio mewn partneriaeth i gynllunio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig o fewn rhanbarthau.

Yn genedlaethol, cyn sefydlu'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth, roedd cyfeiriad cenedlaethol yn cael ei bennu drwy reoliadau, Codau Ymarfer statudol a chanllawiau. Er bod y mesurau a'r systemau hyn ar waith o hyd, mae rôl y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol a'r Swyddfa Genedlaethol yn creu llwybr i bartneriaid gofal cymdeithasol ac iechyd ymgysylltu, datblygu egwyddorion a safonau cenedlaethol a rhoi llais cryfach i'r sector gofal cymdeithasol.

Mae gofal cymdeithasol yng Nghymru, ac yn wir ym mhob cwr o'r DU, yn wynebu heriau sylweddol. Mae amrywiaeth o ffactorau yn gysylltiedig â hyn, gan gynnwys cyfyngiadau cyllido yng nghyd-destun cyfnod heriol o safbwynt economaidd i'r sector cyhoeddus, pwysau ar y gweithlu ynghyd â galw cynyddol gymhleth am wasanaethau. Mae data yn dangos bod demograffeg newidiol yng Nghymru yn debygol o arwain at fwy o alw byth am wasanaethau gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

Mae sefydlu'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth yn gam hanfodol wrth ymdrin â'r heriau hyn a cheisio ymateb iddynt ar y cyd.

# Creu system gofal cymdeithasol gynaliadwy i Gymru

Mae'r Swyddfa Genedlaethol yn cydnabod bod y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi bod yn brwydro yn erbyn problemau sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi'u gwaethygu gan y tirlun ariannol heriol eang sy'n effeithio ar y sector cyhoeddus yng Nghymru ac yn y DU yn ehangach. Ers y cynigion cyntaf ar gyfer swyddfa genedlaethol gofal a chymorth yn y **Papur Gwyn Ailgydbwyso** yn 2021, yr uchelgais erioed fu i swyddfa genedlaethol helpu i ysgogi gwelliannau mewn trefniadau gofal cymdeithasol a chyflawni'r weledigaeth a nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yn y blynyddoedd yn dilyn y cynnig cychwynnol hwn a'r ymgynghoriad dilynol, sefydlwyd Grŵp Arbenigol annibynnol i wneud argymhellion i weinidogion ar y camau y gellid eu cymryd i symud tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol, a fyddai am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen. Rhoddodd Gweinidogion ystyriaeth drylwyr i'r **adroddiad argymhellion** a luniwyd gan y grŵp a chawsant eu darbwyllo gan y weledigaeth a'r argymhellion pellgyrhaeddol yr awgrymwyd y dylid eu rhoi ar waith dros gyfnod o ddeng mlynedd. Yng nghyd-destun yr heriau ariannol presennol ac yn y dyfodol, cyhoeddwyd **Cynllun Gweithredu Cychwynnol** ym mis Rhagfyr 2023.

Cydnabu'r ymatebion o'r ddau ymgynghoriad Ailgydbwyso, ac argymhelliad y Grŵp Arbenigol a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Cychwynnol ar gyfer Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol y byddai'n werth sefydlu swyddfa genedlaethol fel rhan o'r llywodraeth. Aeth swyddogion Llywodraeth Cymru ati i ddechrau'r gwaith pwysig hwn, a **lansiwyd y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth yn ffurfiol** gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ar 22 Ebrill 2024.



O dan oruchwyliaeth y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, mae'r Swyddfa Genedlaethol wedi sicrhau, a bydd yn parhau i sicrhau, y caiff egwyddorion a safonau eu datblygu ar y cyd, gan roi llais cryfach i'r sector gofal cymdeithasol. At hynny, mae'r Swyddfa Genedlaethol wedi dod â rhanddeiliaid allweddol ynghyd er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn hyrwyddo trefniadau cydweithio o'r cychwyn cyntaf, gyda'r bwriad o'u datblygu wrth i'r Swyddfa Genedlaethol aeddfedu.


Yn ystod y flwyddyn gyntaf drosiannol hon, daeth hefyd yn amlwg, drwy wrando ar lais y sector ac er mwyn cydnabod y tirlun gofal cymdeithasol datblygol yng Nghymru, fod angen i swyddogaethau'r Swyddfa Genedlaethol ehangu er mwyn dangos er ein bod yn gofalu am heddiw, bod angen i ni hefyd ganolbwyntio ar baratoi ar gyfer y dyfodol. Mae'r swyddogaeth ychwanegol hon a'n dull gweithredu ystwyth wedi ein galluogi i roi mwy o ffocws ar arloesi, gwella, a thrawsnewid gwasanaethau i oedolion a phlant.




# Cydweithio a phartneriaeth

Felly, o ystyried bod disgwyl i'r galw am wasanaethau gofal a chymorth yn y dyfodol gynyddu, mae'r Swyddfa Genedlaethol wedi bod yn helpu'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol a'r awdurdodau lleol i ystyried y ffordd orau o gefnogi'r sector, gan sicrhau cydbwysedd rhwng ymdrin â'r heriau uniongyrchol a dod o hyd i ddatrysiadau cynaliadwy hirdymor.

Poblogaeth 65 oed a throsodd yng Nghymru




Poblogaeth â chynllun gofal a chymorth gan awdurdod lleol ym mis Mawrth 2024

**19,803**
Plant

**48,519**
Oedolion

Asesiadau a gwblhawyd gan awdurdodau lleol ar gyfer cynlluniau gofal a chymorth

**48,355**
Plant

**69,676**
Oedolion

> **Bydd Prosiect Iechyd a Gofal CGGC, a gaiff ei gyllido gan Lywodraeth Cymru, yn gweithio gyda'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth i alluogi'r sector gwirfoddol i gael dylanwad cynnar, a thrafodaethau parhaus â phartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol gan anelu at ganlyniadau sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn. Gobeithio y bydd y trefniant cydweithredol hwn yn meithrin ymddiriedaeth mewn sefydliadau gwirfoddoli a gwirfoddol ac y cânt eu gwerthfawrogi fel partneriaid cydradd sy'n hanfodol wrth sicrhau Cymru sy'n iachach, yn gydnerth ac yn fwy cyfartal.**
>
> *Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru*

> **...yn bersonol, y peth pwysicaf yw ein bod wedi dechrau creu rhaglen ymgysylltu i sicrhau bod llais y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal, a'u gofalwyr teuluol, yn rhan greiddiol o'r rhaglen waith er mwyn llywio canlyniadau a galluogi adborth gonest a chyfleoedd i fyfyrio.**
>
> *Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan*

Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol er mwyn meithrin cydberthnasau gwaith cadarn ledled Cymru i hyrwyddo gwaith arloesol yn lleol ac yn rhanbarthol, gan hefyd ddarparu man agored i gynnig her adeiladol a rhannu syniadau er mwyn sicrhau llais cenedlaethol cryf. Rydym yn edrych ymlaen at barhau â'r dull cydweithredol hwn, gan weithio gyda'n gilydd i gyflawni ein nod cyfun, sef cyflawni newid cadarnhaol ym maes gofal cymdeithasol.

## Fforwm Ymarfer Da Gofal Cymdeithasol

Fforwm i'r sector gofal cymdeithasol yw hwn sy'n cefnogi cyfleoedd dysgu thematig, ac mae'r fforwm yn anelu at gysylltu polisi ag ymarfer, gan ystyried yr hyn y mae'r gwaith ymchwil yn ei ddangos i ni a chyflwyno enghreifftiau o ymarfer nodedig, er mwyn ystyried cyfleoedd dysgu ledled Cymru a sut y gellid mabwysiadu neu addasu ymarfer nodedig mewn ardaloedd eraill. Mae'r Swyddfa Genedlaethol wedi adolygu'r dull gweithredu blaenorol mewn perthynas â'r fforwm hwn, a chaiff y themâu a'r materion ffocws penodol eu nodi gan y grŵp wrth i'r fforwm ddatblygu, gan gysylltu â'r rhwydwaith arloesi. Llunnir crynodeb o'r trafodaethau ar ôl pob sesiwn er mwyn i'r partneriaid allu manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddatblygu'r ymarfer da yn eu hardaloedd eu hunain.



## Fforwm y Bobl

Yn ystod blwyddyn gyntaf drosiannol y Swyddfa Genedlaethol, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i sut y gellid ymgysylltu'n well â phobl ledled Cymru, gan gynnwys gwaith i lunio cynllun ymgysylltu i ategu'r gwaith hwn. Mae'r Swyddfa Genedlaethol wedi cydweithio â Llais ac aelodau eraill o'r Grŵp Cynghori Strategol i osod y sylfaen ar gyfer lansio Fforwm y Bobl ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru yn 2025.

Mae lleisiau pobl yn hanfodol wrth ddylunio gofal cymdeithasol yng Nghymru yn y dyfodol. Wrth gyfeirio at 'bobl', rydym yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr di-dâl, ffrindiau, teulu, a'r rhai hynny nad ydynt yn gyfarwydd â gwasanaethau gofal cymdeithasol. Bydd barn pobl yn amrywio yn seiliedig ar eu profiadau neu eu canfyddiad o ofal cymdeithasol. Mae'n bosibl y byddant yn dod o grwpiau nad oes ganddynt gymaint o lais neu y byddant yn ansicr am y system a'r cymorth a gynigir ganddi. Byddwn yn ymgysylltu mewn ffordd agored drwy fynychu digwyddiadau cenedlaethol yng Nghymru a chynnal trafodaethau â defnyddwyr gwasanaethau. Byddwn hefyd yn cyrraedd pobl yn eu cymunedau er mwyn cynnal gwaith ymgysylltu wedi'i dargedu. Bydd y ddealltwriaeth y byddwn yn ei meithrin o'r digwyddiadau hyn ac o waith ymchwil yn ein helpu i nodi anghenion pellach wrth i'r Swyddfa Genedlaethol ddatblygu.



## Y Fforwm Arweinyddiaeth

**Mae cyfrifoldebau statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth gan ddarparu'r gwasanaethau naill ai'n uniongyrchol neu drwy drefniadau comisiynu. Mae'r system yn gymhleth, ac mae angen dealltwriaeth barhaus wedi'i hatgyfnerthu o anghenion y sector ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol er mwyn sicrhau cymorth cenedlaethol effeithiol gan y Swyddfa Genedlaethol.**


Mae'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol wedi bod yn gweithio'n agos â Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol drwy amrywiaeth o ddulliau i ddatblygu hyn ymhellach. Mae'r cyfarfodydd misol rhwng y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol a'r Cyfarwyddwyr yn cynnig fforwm i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ddod ynghyd yng nghwmni'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol ac arweinwyr polisi i drafod themâu sy'n dod i'r amlwg a pholisïau allweddol. Yn ogystal, mae cyfres o ddigwyddiadau gwrando a gynhaliwyd gan y Fforwm Arweinyddiaeth wedi cynnig cyfle i Gyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaethau gymryd rhan mewn fforwm agored er mwyn i gydweithwyr rannu eu syniadau a thrafod y rhwystrau hirdymor rydym yn eu hwynebu a sut y gallwn eu goresgyn gyda'n gilydd wrth i ni lywio dyfodol gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Yng nghyfarfod cyntaf y fforwm arweinyddiaeth yn 2024, ymunodd cydweithwyr o bob rhan o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol â Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i gymryd rhan mewn gweithdy gyda Rhoda Emlyn-Jones OBE i ystyried nodweddion 'gwell' a sut y gallwn gydweithio i gyflawni hyn. Yn dilyn diwrnod o drafodaethau i greu rhwydweithiau a phennu camau gweithredu ar gyfer y dyfodol, cynhaliwyd cyfarfod dilynol ddechrau 2025 i ystyried sut i atgyfnerthu llais y sector gofal cymdeithasol wrth i ni symud tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru, a sut i atgyfnerthu'r trefniadau cydweithio rhwng y Swyddfa Genedlaethol ac arweinwyr gofal cymdeithasol. Bydd y camau nesaf o'r trafodaethau hyn yn gweithredu fel sail i'r fforwm arweinyddiaeth yn 2025-26 ac mae'n elfen allweddol o gynllun ymgysylltu'r Swyddfa Genedlaethol.



## Ein Grŵp Cynghori Strategol

Pan ddaeth y Swyddfa Genedlaethol yn weithredol o fis Ebrill 2024, gwnaethom hefyd sefydlu Grŵp Cynghori Strategol er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith. Prif rôl y Grŵp Cynghori Strategol yw helpu Swyddfa Genedlaethol fewnol Llywodraeth Cymru, drwy helpu Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru i gyflawni swyddogaethau ar ran Gweinidogion Llywodraeth Cymru.



Mae aelodau'r Grŵp Cynghori Strategol yn cynnig cyngor strategol a her adeiladol i'r Swyddfa Genedlaethol, er nad oes ganddynt unrhyw awdurdod i wneud unrhyw benderfyniadau. Mae aelodau'r Grŵp Cynghori Strategol (2024-25) yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan | Fforwm Gwaith Teg | Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) |
| Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | Undeb y GMB | Cyngres yr Undebau Llafur |
| Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW) | Improving Adult Care Together (IMPACT) | Undeb Unsain |
| Fforwm Gofal Cymru | Llais Cymru | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) |
| Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) | Uwch-dîm Arwain Gweithrediaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol | Swyddogion Llywodraeth Cymru |
| Y Ganolfan Ymchwil i Ofal Cymdeithasol Oedolion (CARE) | Fforwm Darparwyr Cenedlaethol | Conffederasiwn GIG Cymru |
| Y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) | |

Yn ystod ein blwyddyn gyntaf drosiannol, cynhaliodd y Grŵp Cynghori Strategol bedwar cyfarfod, un yn ystod pob chwarter. Cafwyd trafodaethau am bynciau fel sefydlu'r Swyddfa Genedlaethol a'i mandad cychwynnol, rhaglen y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol, sefydlu fforwm y bobl, a mwy. Byddwn yn parhau i gyfarfod ag aelodau wrth i'r Swyddfa Genedlaethol barhau i ddatblygu er mwyn manteisio ar arbenigedd a phrofiad cyfun yr aelodau yn eu priod feysydd.

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bob un o'r aelodau am eu cyfraniadau ystyriol ac am roi o'u hamser i rannu eu profiad a'u harbenigedd cyfun gyda'i gilydd a gyda'r Swyddfa Genedlaethol ei hun.

# Cyflawniadau ac effaith y Swyddfa Genedlaethol hyd yn hyn

## Helpu i gyrraedd y safonau cenedlaethol

Drwy roi swyddogaeth Dadansoddi ac Arloesi arbenigol ar waith fel rhan o'r Swyddfa Genedlaethol, rydym wedi llwyddo yn ystod ein blwyddyn gyntaf i adeiladu ar y cynnydd a wnaed eisoes i wella'r ffordd y caiff data gofal cymdeithasol eu coladu, er mwyn creu darlun mwy eglur o'r ffordd y darperir gwasanaethau, a helpu'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol i hybu llais cryfach i'r sector.

Mae'r tîm Dadansoddi ac Arloesi yn canolbwyntio ar dri maes, sef data, gwaith ymchwil ac arloesi, fel y'u nodir yn y **Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.** Mae'r cod ymarfer hwn yn nodi sut y bydd awdurdodau lleol yn cefnogi, yn mesur ac yn cynnal gwelliannau i wasanaethau ac i unigolion. Er mwyn cyflawni hyn, caiff data eu casglu ar lefel genedlaethol i fesur gweithgarwch a pherfformiad, ac rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid i ddatblygu dealltwriaeth o brofiadau a chanlyniadau pobl er mwyn gwella gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru.

Mae'r tîm hwn a gaiff ei arwain gan ddata wedi datblygu proses newydd ar gyfer casglu data ac wedi rhoi'r broses honno ar waith er mwyn helpu i wella dealltwriaeth o'r gwasanaethau gofal cymdeithasol a chymorth y mae oedolion yng Nghymru, a gofalwyr di-dâl, yn eu cael. Mae'r casgliadau data newydd hyn wedi galluogi'r Swyddfa Genedlaethol, a'r sector cyfan, i ddeall pa wasanaethau sy'n cael eu darparu i bwy, ble a sut. Er enghraifft, y flwyddyn hon oedd y tro cyntaf i ddata lefel unigol gael eu casglu ar gyfer oedolion â chynllun gofal a chymorth, gan hwyluso gwaith ymchwil manwl i'r boblogaeth hon.



Er mwyn cefnogi'r ymdrechion cenedlaethol i roi'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar waith, goruchwyliodd y Swyddfa Genedlaethol werthusiad annibynnol o'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol er mwyn deall y trefniadau gweithredu a chyflawni yn well. Mae hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i wneud yn siŵr bod y polisi yn cael ei weithredu'n briodol a'i fod yn cyrraedd y bobl y bwriedir iddo eu cefnogi.


Gan gydnabod bod arloesedd yn hanfodol er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru, mae'r Swyddfa Genedlaethol wedi parhau i ddatblygu'r cymorth arloesi sydd ar gael i'r sector gofal cymdeithasol. Rydym yn gweithio'n agos â phartneriaid i ystyried buddiannau posibl Deallusrwydd Artiffisial a thechnolegau newydd a sut y gellir rhoi'r arferion gorau ar waith a'u cynnal wrth ddarparu gwasanaethau. Gan barhau i hyrwyddo gwaith arloesol lleol a rhanbarthol, byddai creu rhwydwaith arloesedd cenedlaethol yn meithrin cydberthnasau gwaith agosach rhwng y gwahanol sefydliadau sy'n gysylltiedig â chefnogi arloesedd ym maes gofal cymdeithasol. Felly mae'r Swyddfa Genedlaethol yn ymrwymedig i ddatblygu'r fforwm hwn yn 2025-26 ac yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda phartneriaid i hyrwyddo a chefnogi arferion arloesol.

Yn ystod ein blwyddyn gyntaf, mae'r Swyddfa Genedlaethol hefyd wedi datblygu camau gweithredu newydd ar gyfer **Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ARWAP)** mewn partneriaeth ag arweinwyr cymunedol. Mae'r cynllun ar ei newydd wedd yn canolbwyntio ar sut y gellir rhoi cymorth i'r rhai hynny sy'n wynebu hiliaeth ym maes gofal cymdeithasol drwy sicrhau bod sensitifrwydd a dealltwriaeth ddiwylliannol i'w gweld ar bob lefel o'r gweithlu gofal cymdeithasol. Rydym hefyd wedi parhau i gyllido Gofal Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSSC) i weithredu fel y prif bartneriaid cyflenwi wrth gyrraedd y gweithlu ac uwch-arweinwyr ym maes gofal cymdeithasol. Er enghraifft, cwblhaodd ADSSC **brosiect ymchwil** yn ddiweddar, wedi'i gyllido gan y Swyddfa Genedlaethol, i ystyried prosesau recriwtio a dethol adrannau gwasanaethau cymdeithasol, er mwyn llywio newidiadau mewn awdurdodau lleol.

Rhoddodd tîm Talu am Ofal a Chyllid yn y Dyfodol y Swyddfa Genedlaethol hefyd flaenoriaeth i ymdrechion i wella safonau cenedlaethol yn ystod blwyddyn gyntaf drosiannol y Swyddfa Genedlaethol. Mae gwaith y tîm hwn yn allweddol wrth helpu i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a chymorth, ac o ran canlyniadau'r rhai hynny sy'n derbyn gwasanaethau. Yng Nghymru, yn amodol ar ofynion y rheoliadau a'r cod ymarfer o dan Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant 2014 (y Ddeddf), mae dyletswydd ar bob awdurdod lleol i drefnu gofal a chymorth i'r rhai hynny ag anghenion cymwys ac mae ganddo ddisgresiwn i godi ffioedd am y gofal a'r cymorth y mae'n eu darparu neu'n eu trefnu. Pan fydd awdurdod lleol yn dewis codi ffioedd, bydd yr awdurdod hwnnw yn pennu ac yn gweithredu ei bolisi ei hun ar gyfer codi ffioedd.

Mae gweithgareddau penodol yn ystod y flwyddyn gyntaf wedi canolbwyntio ar reoli'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer codi ffioedd sy'n berthnasol i awdurdodau lleol mewn perthynas â gofal cymdeithasol oedolion ac ar gwmpasu diwygiadau ar gyfer y dyfodol i drefniadau awdurdodau lleol ar gyfer codi ffioedd drwy waith ymchwil, trefniadau cydweithio a gwaith ymgysylltu. Gwnaed cynnydd sylweddol wrth fwrw ati â gwaith i adolygu'r uchafswm ffi wythnosol ar gyfer gwasanaethau amhreswyl ac i gynnal yr uchafswm ffi hwnnw yn dilyn **ymgynghoriad cyhoeddus** yn 2024.

Drwy gydweithio â rhanddeiliaid ac ymgynghoriad cyhoeddus, roedd llais defnyddwyr gwasanaethau yn ganolog wrth adolygu'r polisi gan helpu i lywio sut y gallem gefnogi awdurdodau lleol a defnyddwyr gwasanaethau fel ei gilydd yn y cyd-destun ariannol heriol sydd ohoni. Yn dilyn cyfarwyddyd Gweinidogol i gynnal yr uchafswm ffi wythnosol bresennol o £100, goruchwyliodd y Swyddfa Genedlaethol y broses o roi cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol er mwyn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth, gan ddarparu cap cyson i ddefnyddwyr gwasanaethau er mwyn sicrhau polisi teg a chyfartal wrth godi ffioedd. Talwyd cyllid o £2.5m i Awdurdodau Lleol ar gyfer blwyddyn ariannol 24/25 a darperir £5m ar gyfer 25/26 ac wedi hynny drwy Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru.



Er mwyn gwella safonau cenedlaethol mewn perthynas â pholisïau codi ffioedd, cynhaliodd tîm Talu am Ofal y Swyddfa Genedlaethol hefyd yr adolygiad a'r diweddariad blynyddol o'r Isafswm Incwm ar gyfer gofal preswyl yn 2024-25 a chyflwynwyd y **Rheoliadau cyfatebol wedi'u diweddaru** o fis Ebrill 2025 i gynyddu'r swm o £43.90 i £44.65 yr wythnos. Ochr yn ochr â hynny, adolygwyd y Cod Ymarfer perthnasol a'r atodiadau ategol gyda'r bwriad o'u diweddaru yn ystod 2025 er mwyn sicrhau y caiff y diweddariadau i'r rheoliadau eu hadlewyrchu'n briodol. Mae hyn yn holl bwysig gan ei fod yn sicrhau bod asesiadau priodol wedi'u cynnal o anghenion unigolion a bod yr awdurdod lleol wedi dewis codi ffioedd yn unol â chyfarwyddyd polisi cenedlaethol, er mwyn sicrhau canlyniadau teg a chyfartal ledled Cymru.

Mae Talu am Ofal yn agwedd allweddol ar y cynlluniau hirdymor ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru, yn benodol yng nghyd-destun yr uchelgais i greu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol, sydd am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen. Fel y cyfryw, mae'r gwaith arall a wnaed yn ystod blwyddyn gyntaf y Swyddfa Genedlaethol wedi cynnwys cydweithio agos â phartneriaid i ystyried buddiannau posibl dull safonedig o godi ffioedd am ofal a sut y gellir rhoi'r arferion gorau ar waith a'u cynnal wrth ddarparu gwasanaethau. Er mwyn cyflawni hyn, cymerodd swyddogion sy'n gweithio yn y Swyddfa Genedlaethol ran mewn cyfres o ymarferion cysgodi yn y 22 o awdurdodau lleol, ar y cyd â swyddogion codi ffioedd, er mwyn canfod sut y caiff y dyletswyddau eu cyflawni ac unrhyw anghysondebau.

Wrth i ni symud ymlaen i'r ail flwyddyn weithredu, byddwn yn parhau i gydweithio â swyddogion codi ffioedd awdurdodau lleol drwy Grŵp ein Fforwm Codi Ffioedd i hybu arloesedd, trefniadau cydgynhyrchu a dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar gydberthnasau.

## Goresgyn anghysondebau wrth gomisiynu gofal a chymorth

Sefydlwyd y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth ("y Fframwaith Cenedlaethol") drwy God Ymarfer statudol ac mae'n berthnasol i brosesau comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau GIG Cymru ("partneriaid statudol").

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn cynnwys egwyddorion a safonau a bennwyd ar lefel genedlaethol i dywys arferion comisiynu y bwriedir iddynt leihau cymhlethdod, hwyluso cysondeb cenedlaethol o ran arferion comisiynu ac ailgydbwyso prosesau comisiynu er mwyn canolbwyntio ar ansawdd a chanlyniadau. Gyda'i gilydd, bydd hyn yn cryfhau ac yn atgyfnerthu egwyddorion a nodau cyffredin y Ddeddf er mwyn diwallu anghenion gofal a chymorth pobl yng Nghymru. Bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn helpu i wella dealltwriaeth comisiynwyr o anghenion unigol ac anghenion y boblogaeth, sefydlogrwydd a digonolrwydd y ddarpariaeth a'r farchnad gofal ac argaeledd adnoddau lleol gan gynnwys cyllid, y gweithlu ac amrywiaeth o asedau cymunedol.

Mae'r amcanion hyn a sefydlwyd o dan y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth flaenorol bellach yn cael eu rhoi ar waith gan y Swyddfa Genedlaethol o dan ein cynllun tymor hwy i ddatblygu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru.

Ers i'r Fframwaith Cenedlaethol ddod i rym ar 1 Medi 2024, mae'r Swyddfa Genedlaethol wedi cyflwyno pecyn gweithredu parhaus er mwyn helpu comisiynwyr i roi egwyddorion a safonau'r Fframwaith Cenedlaethol ar waith i wireddu ei nodau bwriadedig i ailgydbwyso gofal a chymorth.

Dros y 9 mis diwethaf, mae'r Swyddfa Genedlaethol, ar y cyd â'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, wedi cynnal 9 sesiwn codi ymwybyddiaeth, tair mini-gynhadledd undydd ar gomisiynu a buddsoddi yn y cymhwyster lefel 5 'Tystysgrif mewn Egwyddorion Comisiynu ar gyfer Llesiant'. Cyflwynwyd y dystysgrif Lefel 5 drwy raglen waith y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol ac mae'n cefnogi safon 2 y Fframwaith Cenedlaethol yn benodol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid statudol sicrhau eu bod yn meddu ar sgiliau, adnoddau a chapasiti digonol i roi prosesau comisiynu trawsnewidiol ar waith. Mae hyn yn ffactor allweddol wrth sicrhau y gellir rhoi'r Fframwaith ar waith yn llawn er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion ailgydbwyso.

Daeth y mini-gynadleddau â rhanddeiliaid ynghyd yng ngogledd, de a gorllewin Cymru i gydweithio i roi'r Fframwaith Cenedlaethol ar waith. Roeddent yn cynnwys gwybodaeth am waith y Swyddfa Genedlaethol a'r broses o roi'r Fframwaith Cenedlaethol ar waith yn ogystal â chyfleoedd, gan gynnwys drwy sesiwn grŵp greadigol, i rwydweithio â chymheiriaid, rhannu arferion da a chyngor, a help a datrysiadau i'r heriau y mae comisiynwyr yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'u rolau.

**Ers mis Medi 2024, rydym wedi cynnal;**

**9**
sesiwn codi ymwybyddiaeth

**3**
mini-gynhadledd undydd

Mae'r dystysgrif
**Lefel 5**
yn cael ei haddysgu

Codwyd adnodd hunanasesu i bartneriaid cyflawni statudol brofi cydymffurfiaeth ag egwyddorion a safonau'r Fframwaith Cenedlaethol yn ystod y sesiynau hyn, ac aeth y Swyddfa Genedlaethol ati i weithio i gydgynhyrchu'r adnodd hwn fel rhan o waith parhaus i helpu i roi'r Fframwaith Cenedlaethol ar waith. Bydd deall cydymffurfiaeth yn rhan allweddol o sut y gall y Swyddfa Genedlaethol helpu partneriaid statudol i roi'r Fframwaith Cenedlaethol ar waith yn llawn. Bydd yr adnodd yn rhan bwysig o'r mecanweithiau a gaiff eu datblygu i fonitro'r broses o roi'r Fframwaith Cenedlaethol ar waith ac i werthuso i ba raddau y mae ei ddarpariaethau, pan gânt eu rhoi ar waith yn effeithiol, yn cyflawni ei nodau bwriadedig, sef ailgydbwyso gofal a chymorth.

Mae'r Swyddfa Genedlaethol hefyd wedi llunio pecyn cymorth o adnoddau sydd ar gael i'r cyhoedd er mwyn helpu comisiynwyr i weithio'n unol â'r egwyddorion a'r safonau yn y Fframwaith Cenedlaethol, a bydd yn diweddaru'r adnoddau fel y bo angen. Lansiwyd y pecyn cymorth ar 1 Awst ac mae ar gael ar blatfform cymunedau Gofal Cymdeithasol Cymru. Erbyn diwedd mis Mawrth 2024, roedd dros 200 o aelodau o'r gymuned, roedd y pecyn cymorth yn cynnwys dros 200 o adnoddau ac roedd aelodau'r gymuned wedi lawrlwytho bron 3000 o eitemau o'r adnoddau.

Dros amser, wrth i'r Cod gael ei integreiddio'n llawn i'r system gofal cymdeithasol yng Nghymru ac wrth i bartneriaid statudol allu gweithio'n unol â'i ddarpariaethau'n effeithiol a rhoi'r darpariaethau hynny ar waith yn effeithiol, rydym yn disgwyl gweld mwy o gysondeb ar lefel genedlaethol o ran y ffordd y caiff gwasanaethau gofal a chymorth eu comisiynu. Bydd cyflawni'r cysondeb hwn, ynghyd â gwella ansawdd gwasanaethau a chanlyniadau, yn helpu i wireddu nod y Ddeddf, sef diwallu anghenion gofal a chymorth pobl yng Nghymru.


Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sefydlwyd tîm Comisiynu Cenedlaethol yn ffurfiol fel rhan o'r Swyddfa Genedlaethol, ac mae aelodau'r tîm wedi mynychu sawl cyfarfod a fforwm mewn perthynas â'r Fframwaith Cenedlaethol, gan gynnwys y Grŵp Gofal Cartref Strategol a'r Grŵp Rhanddeiliad Cynorthwywyr Personol Iechyd Meddwl Cenedlaethol er mwyn tynnu sylw at y Fframwaith Cenedlaethol a sicrhau cysondeb â meysydd polisi ehangach.

**Ystadegau'r pecyn cymorth sydd ar gael i'r cyhoedd hyd yma**



Yn ystod ail hanner y flwyddyn gyntaf drosiannol, dechreuodd y tîm Comisiynu Cenedlaethol hefyd waith i ddatblygu fframwaith Trosolwg Cenedlaethol o'r Farchnad i Gymru. Bydd y gwaith pwysig hwn yn helpu i gefnogi swyddogaeth drosolwg y Swyddfa Genedlaethol ac yn helpu comisiynwyr i wella gwydnwch a chymedroli neu liniaru risg, o fewn y farchnad gofal cymdeithasol. Bydd hyn unwaith eto yn rhan allweddol o'r ffordd y bydd y Swyddfa Genedlaethol yn helpu i sicrhau cynaliadwyedd a chysondeb gwasanaethau gan sicrhau y caiff y gofal a'r cymorth cywir ei roi pan fo angen. Bydd y broses o ddatblygu fframwaith Trosolwg Cenedlaethol o'r Farchnad yn helpu i ddatblygu polisïau, gan gynnwys adolygu a diwygio'r Fframwaith Cenedlaethol a chodau perthnasol eraill a chynnal trosolwg o gydbwysedd a sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol, sef un o nodau allweddol y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth.

Mae'r arweinwyr Comisiynu Cenedlaethol hefyd wedi gweithio gyda chydweithwyr polisi yn Llywodraeth Cymru i hwyluso prosiect pwysig i gyd-ddylunio (ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol) **Cod Ymarfer drafft i ymgynghori arno** ar sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad, uwchgyfeirio pryderon, a chau gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig.



## Datblygu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol

Ein nod hirdymor yw creu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru. Mae gennym weledigaeth glir ar gyfer Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol yng Nghymru, sef system sy'n darparu gofal o ansawdd ardderchog, sy'n cefnogi gwaith deniadol sy'n rhoi boddhad ac sydd wedi'i integreiddio'n agos â'r GIG a'r sector cyhoeddus ehangach. Fodd bynnag, mae angen i gynlluniau dynamig ac uchelgeisiol megis y rhain fodoli yng nghyd-destun ateb cyllido cynaliadwy sy'n cefnogi ein sector gofal cymdeithasol ac yn ei alluogi i ffynnu. Dyna pam rydym wedi datblygu dull fesul cam sy'n parhau'n unol â'r cynnig a wnaed gan y Grŵp Arbenigol y byddai angen cynllun cyflenwi fesul cam dros gyfnod o 10 mlynedd o leiaf er mwyn cydnabod uchelgais llawn yr adroddiad. Rydym yn rhoi Cam 1 ar waith ar hyn o bryd, a'r bwriad yw y bydd y gwaith ymchwil a'r gweithgarwch a gynhelir yn ystod Cam 1 yn llywio Cynllun Gweithredu Cam 2 ar gyfer 2026-28 ac y caiff dull tebyg ei ddilyn ar gyfer Cynllun Gweithredu Cam 3 ar gyfer 2029 ymlaen.

Mae'r sector gofal cymdeithasol yn chwarae rhan ganolog wrth gefnogi cymaint o bobl ledled Cymru ac mae'r gwaith sy'n sail i ddatblygu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru yn dangos ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth â'r sector gofal cymdeithasol i anelu at wasanaethau gofal a chymorth o ansawdd ardderchog sy'n bwysig i unigolion, teuluoedd a chymunedau, ac i ddarparu'r gwasanaethau hynny, wrth i ni weithio tuag at y weledigaeth hirdymor hon ar gyfer dyfodol cynaliadwy.

Yn ystod ei blwyddyn gyntaf, mae'r Swyddfa Genedlaethol wedi goruchwylio a chydlynu gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth eang o feysydd polisi ac ymchwil ym maes gofal cymdeithasol fel rhan o Gynllun Gweithredu Cychwynnol Cam 1.

**Mae cyfanswm o 25 o gamau gweithredu yn y cynllun, ac mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud hyd yn hyn ar raglen y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol.**

Mae tri philer allweddol yr agenda Ailgydbwyso Gofal a Chymorth eisoes wedi cael eu cwblhau'n llwyddiannus: lansiwyd y Swyddfa Genedlaethol ym mis Ebrill 2024; daeth Cod Ymarfer y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth i rym ym mis Medi 2024; a daeth y Canllawiau Statudol Rhan 9 diwygiedig ar gyfer trefniadau partneriaeth i rym o fis Ebrill 2025.

Mae'r camau gweithredu eraill a gwblhawyd yn ymwneud â'r strategaeth i ofalwyr di-dâl; datblygu Cyngor Partneriaeth y Gweithlu Gofal Cymdeithasol; a diweddaru'r gofynion i adroddiadau blynyddol Cyfarwyddwyr gynnwys straeon am ddinasyddion ac adborth gan ddinasyddion ac i ddatblygu prosesau mewnol ar gyfer adroddiadau Pwyntiau Adolygu Gofal Cymdeithasol fel ffynhonnell ddata i hwyluso prosesau meincnodi; gweithio gyda chyrff rheoliadol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu cyfres o fesurau perfformiad i ddangos effaith ac effeithiolrwydd; a sicrhau bod y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso ar waith er mwyn gallu ehangu'r ddarpariaeth uniongyrchol. Roedd cael Cydsyniad Brenhinol i'r Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) a chreu'r Ddeddf yn garreg filltir arwyddocaol. Mae'r eglurder ynghylch 'elw' a nodweddion sefydliadau di-elw yng nghyd-destun yr agenda drawsnewid 'Dileu Elw' sy'n berthnasol i blant yn ymwneud yn benodol â datblygu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol.

**Mae'r camau gweithredu sy'n weddill yng Ngham 1 y Cynllun Gweithredu yn mynd rhagddynt yn effeithiol ac mae cynnydd da wedi'i wneud. Disgwylir iddynt gael eu cwblhau o fewn yr amserlenni disgwyliedig.**

Fel rhan o Gynllun Gweithredu'r Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol, datblygwyd adnodd cenedlaethol ar gyfer adrodd ar ganlyniadau er mwyn adrodd yn erbyn y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, ac mae'n cynnwys 20 o fesurau cenedlaethol ansoddol. Defnyddir yr adnodd hwn i ddangos effaith ar draws prosiectau a modelau gofal a gaiff eu cyllido ar y cyd, ac i roi syniad o'r graddau y caiff iechyd a gofal cymdeithasol eu hintegreiddio. Gellir ystyried yr adnodd hwn a'i addasu ar gyfer prosiectau a gwasanaethau mwy penodol a gaiff eu comisiynu os bydd angen.

Yn ystod blwyddyn gyntaf y Swyddfa Genedlaethol, cynhaliwyd proses gomisiynu allanol gan ddefnyddio proses dendro agored. Mae astudiaeth yn mynd rhagddi i ystyried dichonoldeb sefydlu methodoleg ffioedd genedlaethol ar gyfer lleoliadau mewn cartrefi gofal, gan gynnwys y rhai hynny ag ystyriaethau Gofal Iechyd Parhaus (GIP) a Gofal Nyrsio a Ariennir (GNA). Mae'r gwaith hwn yn gysylltiedig â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth a lansiwyd yn ddiweddar a disgwylir iddo ddirwyn i ben ym mis Mai 2025. Bydd yr adroddiad dilynol yn helpu i lywio camau'r rhaglen yn y dyfodol.

Gweithgarwch pwysig arall sy'n rhan o'r broses o sefydlu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru yw'r gwaith i ddatblygu Cynllun Gweithredu Gofal Iechyd Parhaus (GIP) a Gofal Nyrsio a Ariennir (GNA) sy'n cynnwys diwygio'r Fframwaith GIP i gynnwys cyfeiriad at gyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer GIP yng Nghymru; datblygu Fframwaith Rheoli Perfformiad ar gyfer GIP; y defnydd posibl o dechnoleg deallusrwydd artiffisial fel rhan o broses yr adnodd cymorth penderfynu; a dichonoldeb methodoleg ffioedd genedlaethol ar gyfer GIP/GNA yng Nghymru.

Mae helpu aelodau'r gweithlu gofal cymdeithasol i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn ymrwymiad allweddol, ac mae'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol wrthi'n datblygu fframwaith dilyniant ac yn ystyried y rhyngwyneb â pholisïau sy'n ymwneud â chynorthwywyr personol ac unigolion sy'n cael taliadau uniongyrchol. Mae'r gwaith hyd yn hyn wedi cynnwys cynnal sesiynau casglu gwybodaeth yn canolbwyntio ar amrywiaeth o bynciau penodol, a gweithio gyda Grŵp Rhanddeiliad Cynorthwywyr Personol Llywodraeth Cymru i roi camau gweithredu ar waith mewn perthynas â chyflog, telerau ac amodau, hyfforddi a datblygu, hyrwyddo undebau llafur a phwysleisio'r cymorth a'r wybodaeth sydd ar gael i gynorthwywyr personol er mwyn sicrhau cysylltiadau clir a dealltwriaeth o ran pa waith sy'n mynd rhagddo i wella rôl cynorthwywyr personol.

Gan gydnabod rôl y Gymraeg a pharchu hawl pobl i ddewis cael gwasanaethau yn eu dewis iaith, mae'r Swyddfa Genedlaethol wedi bod yn gweithio'n agos â chydweithwyr sy'n gyfrifol am strategaeth Mwy Na Geiriau ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd y ffocws ar atgyfnerthu'r cysylltiadau ym mhob rhan o'r sector gofal cymdeithasol, a chefnogi grŵp cynghori Mwy Na Geiriau, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Gyda'r gweithgareddau hyn yn mynd rhagddynt, mae'r Swyddfa Genedlaethol wedi cefnogi mecanwaith trosolwg cenedlaethol i fonitro'r ffordd y caiff y strategaeth ei rhoi ar waith a bydd yn parhau i weithio gyda chydweithwyr a phartneriaid i sicrhau bod gwybodaeth am ofal cymdeithasol yn rhan o adroddiad blynyddol Mwy Na Geiriau.

Mae'r gwaith ymwybyddiaeth ddiwylliannol a'r egwyddorion dylunio cenedlaethol yn ystyriaethau allweddol o ran Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol ar ei ffurf derfynol; felly, mae'r gwaith hwn yn barhaus. Yn dilyn adborth gan randdeiliaid, cynigiwyd y dylid cynnal cyfres o weithgareddau gwrando a sesiynau ymgysylltu cyn dechrau ar ymgyrch ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Bydd y Cynllun Ymgysylltu arfaethedig ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol yn 2025-26 yn bwrw ati â'r gwaith hwn wrth i ni weithio'n agos â phobl.

Mae gwaith yn parhau i recriwtio Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol, ac mae'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol yn gweithio'n agos â Chymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW) Cymru i fwrw ati â'r cam gweithredu hwn. Bydd ymarferydd gwaith cymdeithasol profiadol yn ymgymryd â rôl y Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol gan weithredu fel ysgogwr a chatalydd ar gyfer newid, wedi'i gyllido gan y Swyddfa Genedlaethol, er mwyn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol a chyrff cynrychioliadol i godi ymwybyddiaeth, gwella gwybodaeth, nodi cyfleoedd hyfforddi a dangos llwyddiant drwy asesiadau effaith a gwerthusiadau o'r gwasanaethau a ddarperir. Bydd rôl y Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol yn canolbwyntio'n benodol ar roi cyngor ar ymarfer gwaith cymdeithasol a datblygiad proffesiynol y rhai hynny sy'n gweithio yn y sector er mwyn sicrhau y caiff ymarfer ei ddatblygu i weithio gyda phobl sy'n wynebu risg o anfantais ar sail eu tarddiad ethnig, gan felly gefnogi cymunedau i wella'r gwasanaeth y maent yn ei gael, ac i nodi gwelliannau a diwygiadau i'r sector yn seiliedig ar bolisïau a gweithdrefnau effeithiol, tystiolaeth gref a data cadarn.

Caiff y rôl hon ei chefnogi gan grŵp cyfeirio o weithwyr proffesiynol a phobl â phrofiadau bywyd, a chaiff y gwaith ei ategu gan ganllawiau a hyfforddiant sy'n meithrin ymddiriedaeth a hyder y proffesiynau i ddiwallu anghenion gofal aelodau o grwpiau a chymunedau ethnig lleiafrifol mewn ffordd gadarnhaol, gan gysylltu'n agos â'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol i sicrhau bod prosesau parhaus ar waith i ymgysylltu â phobl â phrofiad bywyd, y gweithlu a chyflogwyr er mwyn cydweithredu i sicrhau gwelliannau parhaus yn y sector.

Mae'r gwaith archwilio wedi dechrau i ddatblygu dull cenedlaethol o gofnodi sgyrsiau am "yr hyn sy'n bwysig" drwy ddatblygu set ddata genedlaethol ar gyfer casglu data ar lefel leol. Mae swyddogaeth Dadansoddi ac Arloesi'r Swyddfa Genedlaethol, yn ystod blwyddyn gyntaf y Swyddfa Genedlaethol, wedi cynllunio arolwg cenedlaethol o'r holl oedolion sy'n cael gofal a chymorth, a fyddai'n darparu trosolwg o'u profiadau. Byddai'r arolwg hefyd yn gofyn cwestiynau am eu llesiant. Mae'r arolwg hwn wedi symud i'r cam profi dichonoldeb, ac wedyn caiff dull cychwynnol ei rannu ag awdurdodau lleol i'w drafod cyn ystyried ei lansio'n llawn yn y dyfodol.

Mae angen i gynlluniau dynamig ac uchelgeisiol ar gyfer Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol fodoli yng nghyd-destun ateb cyllido cynaliadwy sy'n cefnogi ein sector gofal cymdeithasol ac yn ei alluogi i ffynnu. Felly yn unol ag argymhellion y Grŵp Arbenigol, a'r hyn a nodwyd gennym yn y Cynllun Gweithredu Cychwynnol, mae'r Swyddfa Genedlaethol wedi dechrau cydlynu gweithgarwch ymchwil i'r ffordd orau o symud tuag at gyfundrefn codi ffioedd lle caiff y rhan fwyaf o ofal amhreswyl ei ddarparu am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen. Bydd gwaith ymchwil yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael o ran talu am wasanaethau gofal a chymorth ac yn ceisio deall yr opsiynau hyn yn well, sut y gellid eu cyllido, ac effeithiau gweithredol gofal sydd am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen. O ystyried graddfa, pwysigrwydd ac arwyddocâd y rhyngddibyniaethau sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn, mae'r gwaith ymchwil a'r ystyriaethau ategol yn barhaus, a bydd y Swyddfa Genedlaethol yn parhau i weithio'n agos ag unrhyw randdeiliaid perthnasol er mwyn sicrhau y caiff yr opsiynau sydd ar gael, ac unrhyw effeithiau sy'n gysylltiedig â'r broses o'u rhoi ar waith, eu hystyried yn llawn, wrth i ni symud ymlaen i sefydlu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol.

**Mae'r dulliau cenedlaethol hyn a gaiff eu rhoi ar waith yn flociau adeiladu pwysig tuag at greu ein Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol ac maent yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer cynnydd pellach yn ystod y cam cyntaf hwn ac wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu Cam 2, y disgwylir iddo ddechrau yn 2026.**




# Edrych i'r dyfodol: blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod

Wrth i ni edrych ymlaen i'r flwyddyn sydd i ddod, a diwedd tymor y Llywodraeth bresennol, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod ei blwyddyn gyntaf. Mae'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol wedi llunio cynllun gwaith y cytunwyd arno gan Weinidogion Llywodraeth Cymru sy'n nodi tri maes blaenoriaeth â phwyslais ar gyflawni:

1. Helpu'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol i ymgysylltu â'r sector a'r cyhoedd, a chodi proffil a llais gofal cymdeithasol;
2. Atgyfnerthu ymarfer yn y sector gofal cymdeithasol drwy bennu safonau cenedlaethol a hyrwyddo arloesedd;
3. Symud ymhellach tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru.







## Gweithgarwch ymgysylltu

Er mwyn helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn, datblygwyd cynllun ymgysylltu. Un o'r amcanion allweddol fydd canolbwyntio ar sefydlu Fforwm y Bobl cenedlaethol er mwyn i ni allu parhau i gydgynhyrchu dyfodol gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan ddilyn fformat cryfach. Wrth gyfeirio at 'bobl', rydym yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr di-dâl, ffrindiau, teulu, a'r rhai hynny nad ydynt wedi ymgysylltu â gwasanaethau gofal cymdeithasol yn y gorffennol. Bydd yn cynnwys pob oedran. Gan weithio ar y cyd â Llais a sefydliadau sydd eisoes wedi'u sefydlu sy'n gweithio gyda chymunedau ledled Cymru, bydd y fforwm hwn yn anelu at gasglu profiadau a safbwyntiau amrywiaeth eang o grwpiau ac unigolion gan gynnwys y rhai hynny o grwpiau anos eu cyrraedd. Byddwn yn cynnal trafodaethau fel rhan o ddigwyddiadau cenedlaethol a rhanbarthol, ac yn cwrdd â grwpiau yn eu cymunedau.

## Datblygu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol

Byddwn yn ystyried llwyddiant gweithgareddau Cam 1 Cynllun Gweithredu Cychwynnol y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol ac yn llunio crynodeb o'r cynnydd hyd yn hyn, ac yn ystyried beth y gellid ei gynnwys yng nghynllun gweithredu Cam 2 er mwyn paratoi i roi cyngor i Weinidogion. Bydd adroddiad argymhellion y Grŵp Arbenigol unwaith eto yn allweddol wrth i ni symud tuag at yr uchelgais hirdymor hwn, a bydd gwaith ymgysylltu parhaus â'r sector a chanlyniadau'r gwaith ymchwil a gynhaliwyd yn ystod Cam 1 yn helpu i nodi meysydd blaenoriaeth i'w rhoi ar waith yn ystod cam nesaf y cynlluniau uchelgeisiol hyn.

## Codi Ffioedd a Chyllido Gofal Cymdeithasol yn y Dyfodol

Bydd anghysondebau wrth roi'r gyfundrefn codi ffioedd ar waith ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau i gael eu hadolygu, a byddwn yn ystyried a ellid rhannu gwasanaethau naill ai ar lefel ranbarthol neu genedlaethol er mwyn sicrhau bod y system codi ffioedd yn adlewyrchu dull teg a chyson ledled Cymru. Er mwyn gwella dull teg a chyson, byddwn hefyd yn ystyried rhoi proses apeliadau ffurfiol ar waith yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Byddai angen diwygio'r rheoliadau yn sgil y newid posibl hwn, gan roi'r hawl ffurfiol i unigolion apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol o ran codi ffioedd am ofal. Bydd gwaith ymchwil hefyd yn parhau, er mwyn gwella ein dealltwriaeth genedlaethol o effeithiau ariannol symud tuag at system sydd am ddim pryd a lle bynnag y bo'i hangen, fel rhan o'r uchelgais ar gyfer Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol yn unol â'r weledigaeth a nodwyd yn adroddiad y Grŵp Arbenigol a Chynllun Gweithredu Cychwynnol Cam 1.

## Dadansoddi ac Arloesi

Gan adeiladu ar y gwaith agos a wnaed hyd yn hyn ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill i ddatblygu casgliadau data, y cam nesaf fydd datblygu defnydd mwy effeithiol o'r data sydd eisoes ar gael. Rydym bellach wedi cyrraedd pwynt lle mae bylchau allweddol wedi'u nodi ac wedi'u llenwi, ac mae angen i ni nawr feithrin dealltwriaeth a gwybodaeth o'r data a rhannu hynny â'r sector ehangach. Felly, byddwn yn anelu at gyhoeddi adroddiadau dadansoddol yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

O ran gwaith ymchwil, rydym yn cydnabod y gellid gwella ein dealltwriaeth genedlaethol o brofiadau a chanlyniadau pobl o wasanaethau gofal cymdeithasol. Felly bydd y Swyddfa Genedlaethol yn dechrau gwaith i ystyried sut y gellir gwella hyn, drwy gasglu profiadau pobl o ofal cymdeithasol yn rheolaidd. Bydd y camau cynnar hyn yn helpu i sicrhau bod tystiolaeth gadarn ar gael yn y dyfodol.

Bydd y Swyddfa Genedlaethol hefyd yn dod â phobl ynghyd i ddatblygu dull arloesi ar y cyd. Bydd yn canolbwyntio ar newid yn yr hinsawdd ac arloesedd digidol, fel deallusrwydd artiffisial. Mae'r meysydd trawsbynciol hyn yn dod yn gynyddol arwyddocaol a byddai'n fuddiol cynnal trafodaeth a rhoi dull gweithredu ar waith gan gynnwys y sector cyfan. Mae angen ystyried hefyd sut y gall ymarfer newid a gwella er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn gyfartal ac yn ddiduedd, fel y nodir yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, gan roi'r gwersi a ddysgwyd o Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu ar waith.



## Comisiynu Gwasanaethau Gofal a Chymorth ar sail Genedlaethol

Mae helpu sefydliadau comisiynu statudol i roi egwyddorion a safonau'r Fframwaith Cenedlaethol ar waith yn rhan allweddol o'n proses o weithio tuag at gyflawni'r flaenoriaeth i atgyfnerthu ymarfer comisiynu yn y sector gofal cymdeithasol a hyrwyddo arloesedd. Un o'r mecanweithiau cymorth gweithredu yw parhau i ddatblygu'r pecyn cymorth ar-lein o adnoddau, canllawiau, tystiolaeth a thempledi ymarfer. Mae sefydlu cymunedau ymarfer (ar blatfform Gofal Cymdeithasol Cymru) yn cynnig cyfleoedd i'r Swyddfa Genedlaethol ymgysylltu mewn ffordd uniongyrchol â chomisiynwyr, gan gynnig amgylchedd digidol dynamig ar gyfer rhoi gwybodaeth a rhannu syniadau arloesol, gwersi i'w dysgu a rhagoriaeth o ran arferion comisiynu.

Bydd y Swyddfa Genedlaethol hefyd yn cynnal gwaith cynllunio ar gyfer yr adolygiad ffurfiol a gynhelir o'r Fframwaith Cenedlaethol ar ôl 2 flynedd a fydd yn dechrau yn ystod hydref 2026. Caiff tystiolaeth o weithredu'r Fframwaith Cenedlaethol ei defnyddio i adolygu, diweddaru a gwella'r safonau a'r egwyddorion yn unol ag arferion comisiynu datblygol a datblygiadau polisi ehangach. Gyda'i gilydd, bydd y gwaith hwn yn cyfrannu ymhellach at greu sylfeini cadarn ar gyfer y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru.

Cafodd y Fframwaith Cenedlaethol a'r pecyn cymorth a'r llwyfan cymunedau ategol groeso cynnes iawn, ac mae'r tîm comisiynu yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'n partneriaid tuag at roi'r Fframwaith Cenedlaethol ar waith yn llawn ac at wireddu'r nodau cyffredinol, sef diwallu anghenion gofal a chymorth pobl yng Nghymru.

Yn dilyn gweithdai i randdeiliaid a gynhaliwyd yn y gorffennol, mae arweinwyr comisiynu a throsolwg o'r farchnad cenedlaethol wedi mapio setiau data a ffynonellau data allweddol ac wedi dechrau casglu gwybodaeth am y farchnad. Mae partneriaid allweddol gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a Data Cymru wedi cyfarfod â chomisiynwyr lleol i ddatblygu trefniadau rhannu data ac i godi ymwybyddiaeth o ffynonellau data sy'n bodoli eisoes. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi gwahodd arweinwyr comisiynu cenedlaethol i lywio'r gwaith o ddatblygu'r porth data cenedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol. Bwriedir cynnal rhagor o waith yn ystod 2025/26 i greu a chynnal fframwaith trosolwg cenedlaethol o'r farchnad.

